



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Rhagfyr 2012
Rhifyn 192

Oedfaon y Sul

- 2 Rhagfyr - Sul Cyntaf yr Adfent - Bore: **Gweinidog**.
Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**
Gweinyddir y Sacrament o Fedydd yn oedfa'r bore
- 9 Rhagfyr - Bore a Hwyr: **Y Parchg Harri Parri**
- 16 Rhagfyr - Bore a Hwyr: **Gweinidog**
Gweinyddir y cymun yn oedfa'r bore
- 23 Rhagfyr - Bore: **Dathlu'r Nadolig**
Prynhawn (3pm): **Gwasanaeth Nadolig y Plant** gyda the parti
i'r plant i ddilyn. Gwneir casgliad at waith yr ysgol Sul ar derfyn yr oedfa.
- 24 Rhagfyr - **Noswyl Nadolig** (11.30pm): **Carol a Chymun**
Gwneir casgliad at waith GISDA
- 25 Rhagfyr - **Oedfa fer Bore Nadolig** (9.30am)
Gwahoddir y plant i ddod ag un o'u hanrhegion i'r oedfa
Gwneir casgliad at waith GISDA
- 30 Rhagfyr - Oedfa'r bore yn unig: **Y Parchg Megan Williams**
- 6 Ionawr - Bore: **Gweinidog**
Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**

Am newyddion, gwybodaeth a lluniau gweler tudalen Eglwys Seilo ar
www.henaduriaetharfon.org

Digwyddiadau Mis Rhagfyr

Bore Sadwrn 1 Rhagfyr (10am) - Paned a mins pei yn Salem

Nos Lun 3 Rhagfyr (7.30pm): **Y Gymdeithas Lenyddol a Chymdeithas
Chwiorydd Seilo** yn dathlu'r Nadolig yng nghwmni Côr Meibion
Dyffryn Peris.

Nos Iau 6 Rhagfyr (6pm): **Noson Garolau ar y Maes** - ceir cyflwyniad o
Stori'r Geni gan aelodau eglwysi'r dref.

Nos Wener 14 Rhagfyr (7.30pm) **Côr Cymysg Dyffryn Conwy yn Salem yn
cyflwyno'r Messiah gan Handel**. Tocyn £10

Nos Lun 17 Rhagfyr (7pm) **Disgwyl y Nadolig**. Gweddi, Myfyrdod a Charol yn
Seilo

Taro Mewn - bob bore Mawrth yn Salem (10 -11am)

Seiat - bob bore Mercher (10am)

Y Gell Weddi - bob dydd Iau (10.30am)

Am Eiliad

Oes ganddoch chi hoff garol?
Byddai'n ddiddorol cael cyfle i
glywed am eich hoff garolau a'ch
rhesymau dros eu dewis. Oes gen i
hoff garol? Ddim wir. Rwy'n hoff
iawn o garolau'n gyffredinol, a
byddai'n anodd imi ddewis un yn fwy
na'i gilydd. Wedi dweud hynny, mae
un emyn y byddaf yn sicr o'i ddewis
yn gynnar yn yr Adfent, a hwnnw yw
un o emynau'r Perganiedydd, rhif
292 yn Caneuon Ffydd:

*Ymhlith holl ryfeddodau'r nef,
hwn yw y mwyaf un –
gweld yr anfeidrol ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.*

Ac o ddewis, dymunwn iddo gael ei
ganu ar y dôn 'Farrant'. Byddaf bob
amser yn siomedig os dewisir tôn
wahanol!

A dyna, mewn cwta bedair llinell,
grynhoi neges y Nadolig; y neges a
gyflwynir i ni mor odidog ym
mhennod gyntaf Efengyl Ioan:

*“A daeth y Gair yn gnawd a
phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras
a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef,
ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi
wrth y Tad.” (Ioan 1:14)*

Yr un ydi neges yr Apostol Paul yn ei
Lythyr at y Philipiaid:

*“Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni
chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw
yn beth i ddal gafael ynddo, ond fe'i
gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf
caethwas a dyfod ar wedd ddynol.”
(Philipiaid 2:6)*

Pan aned Crist ym Methlehem dros
ddwy fil o flynyddoedd yn ôl ychydig,
ar y pryd a sylweddolodd arwyddocâd
y digwyddiad anhygoel hwn. Duw ei
hun, yn ei Fab, yn ymgawdoli ac yn
byw bywyd fel rhan o deulu cyffredin
yn Nasareth. Mae'n anodd amgyffred
y fath wyrth, ac yn sicr mae'n
amhosib ei egluro. Baban bach
hawdd ei niweidio mewn preseb, yn
gorfod ffoi am ei fywyd rhag llid a
dicter y brenin Herod, yn tyfu'n ddyn
ac wedi tair blynedd o weinidogaeth
yn cael ei groeshoelio yn y dull
mwyaf erchyll.

Beth yw arwyddocâd y digwyddiad
mawr hwn i chi a finna ar y Nadolig
eleni? Yn syml, gwybod bod Iesu
Grist yn ddatguddiad o natur ac
ewyllys Duw ar ein cyfer. Roedd
neges yr angylion i'r bugeiliaid yn un
o 'lawenydd mawr' oherwydd fod
Duw yn Iesu Grist wedi dod yn agos
at ei bobl, a thrwy hynny wedi rhoi
gobaith newydd iddynt. Pan
ymwelodd Iesu â'r synagog yn
Nasareth ar ddechrau ei weinidogaeth,
darllenodd y geiriau hyn o Lyfr y
Proffwyd Eseia:

*“Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf,
oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r
newydd da i dlodion.*

*Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi
rhyddhad i garcharorion, ac adferiad
golwg i ddeillion, i beri i'r
gorthrymedig gerdded yn rhydd, i
gyhoeddi blwyddyn ffafr yr
Arglwydd.” (Luc 4: 18-19)*

Buaswn wedi mwynhau bod yn y gynulleidfa yn Nasareth y diwrnod hwnnw a'i glywed yn dweud y geiriau "*Heddiw yn eich clyw chwi y mae'r Ysgrythur hon wedi ei chyflawni.*" (Luc 4:21)

'Sgwn i sut byddwn wedi ymateb?

Gwenda Richards

Coffâd

Mr Edgar Wyn Parry, Awelfryn, Stryd Thomas,

Hanai Edgar Parry o Waunfawr, ond symudodd y teulu pan oedd yn ifanc i fyw i Ceunant. Roedd yn hanesydd brwd gan ymddiddori'n bennaf yn hanes eglwysi Cymru. Cyhoeddodd bedwar llyfr, tri yn ymwneud ag eglwysi a'r llall ar hanes 'Y Teithwyr yng Nghymru'. Cofiw'n amdano fel gŵr tawel a bonheddig. Bu colli ei ferch, Annwen, yn 2008 a'i briod, Maureen, yn gynharach eleni yn loes iddo, ond trwy'r cyfan cadwodd ei ffydd gan wynebu treialon bywyd yn wrol a chydag urddas. Cydymdeimlwn â'i ferch Llinos a'r teulu oll yn eu profedigaeth gan ddymuno i Dduw eu cynnal yn eu hiraeth am dad a thaid arbennig.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â **Mr Arthur Jones**, 20 Tyddyn Llwydyn yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar a hefyd â **Mr Hywel Jones**, Porth y Wawr, Llys Gwyn wedi iddo yntau golli ei frawd.

Gwaeledd

Anfonwn ein dymuniadau at bawb o'r eglwys a fu'n wael yn ystod y mis. Mae **Mr Emyr Parry**, Tre'r Ceiri, 5 Llwyn Ceirios, yn parhau i wella ac yn cael gadael yr ysbyty am ryw gyfnod bob dydd ac ar benwythnosau. Mae **Mr Ellis Llywelyn Jones**, Tegfan, Ffordd Cae Garw, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd a **Mrs. Alice Jones**, Trefal, 20 Bryn Rhos, Rhosbodrual, yn Ysbyty Eryri. Anfonwn ein cofion at **Mr Arthur Rowlands**, Arenig, Ffordd Bethel, sydd wedi dychwelyd adref o'r ysbyty.

Blodau'r Cysegr

Dyma'r chwiorydd fydd yn gyfrifol am flodau yn y capel yn ystod mis Rhagfyr: **Mrs Eiddwen Roberts** (2); **Mrs Helen Jones** (9); **Mrs Olwen Hughes** (16)

Banc Bwyd

Gobeithir, yn y flwyddyn newydd, medru cefnogi Banc Bwyd sydd eisoes wedi cychwyn yn y dref ac sydd wedi derbyn cefnogaeth y Cyngor Eglwysi. Bydd rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Bont.

Disgwyl y Nadolig

Nos Lun 17 Rhagfyr cynhelir cyfarfod anffurfiol yn Seilo pryd ceir cyfle i rannu hoff garolau, darlleniadau a myfyrdodau ar y Nadolig. Croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig

Erbyn hyn mae Ffair Nadolig arall llwyddiannus y tu cefn i ni. Diolchir i bawb a gyfrannodd at ei llwyddiant,

yn arbennig Mrs Beryl Roberts, ysgrifennydd pwyllgor y chwiorydd. Daeth tyrfa luosog i brynu ac i fwynhau'r cymdeithasu uwchben mins pei a phanad o de. Gwnaethpwyd elw o dros £4,000 i'w rannu rhwng yr eglwys ac Apêl Guatemala.'

Nadolig y Plentyn (Operation Christmas Child)

Diolch i bawb a gyfrannodd at apêl flynyddol Nadolig y Plentyn. Daeth 59 bocsi i law yn Seilo eleni. Mae'r cyfanswm hwn yn anrhydeddus gan gofio bod yr ysgolion lleol, yn ogystal â sefydliadau eraill yng Nghaernarfon, yn casglu bocsys hefyd. Bydd eich haelioni arferol yn sicrhau bod plant yn nwyrain Ewrop yn derbyn anrheg Nadolig am y tro cyntaf erioed.

Cymun

Os oes unrhyw aelod yn dymuno derbyn cymundeb ar yr aelwyd cyn y Nadolig, cysyllter â'r gweinidog, y Parchedig Gwenda Richards (676435)

Cymdeithas Lenyddol Seilo

Nos Lun 5ed o Dachwedd croesawodd cadeirydd y cyfarfod, Mr Geraint Clwyd Jones, pawb yn gynnes iawn gan ddweud gyda balchder mor braf oedd gweld cynifer wedi cefnogi'r noson, yn aelodau ac eraill o'r tu allan.

Croesawodd y gŵr gwadd, y cyfansoddwr amryddawn Robert Arwyn gan roi braslun o'i gefndir a'i hanes o gyfnod Ysgol Gynradd Talysarn, Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle, i Goleg y Brifysgol

Caerdydd. Aeth Robert Arwyn â phawb ar daith a chyflwyno yn fanwl hanes a chefndir dwsin o'i gyfansoddiadau. Wrth wrando arno'n canu cafwyd darlun byw o bob darn gan wefreiddio pawb â'i ddawn ryfeddol. Soniodd am gymaint o gyfleon a gafodd dros y blynyddoedd a braint o gydweithio sawl gwaith gyda phobl fel Hywel Gwynfryn, Bryn Terfel, Cefin Roberts, a chyfansoddi'r sioe gerdd "Plas Du" ar gyfer Radio Cymru. Aeth ymlaen i sôn am y gân adnabyddus "Anfonaf Angel" a recordiwyd yn 2010 ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru a theimlai'n falch o fod yn rhan o'r mudiad.

Diolchwyd iddo gan y cadeirydd am fynd â ni i fyd cerddoriaeth yng ngwir ystyr y gair. Noddwyd y noson hynod lwyddiannus hon gan 'Llenyddiaeth Cymru.'

Eurwen Williams

Diolch

Carwn ddiolch yn fawr iawn i'm teulu, ffrindiau ac aelodau Capel Seilo am y cardiau, blodau a galwadau ffôn. Diolch yn fawr iawn
Edith Evans, 43 Cae Mur

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law erbyn Rhagfyr 20fed os gwelwch yn dda.

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435

Golygydd: Mrs Angharad Williams 674865